**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 06-02(p5)**

**Dyddiad:** **20 Mawrth 2002**
**Amser:** **2.00pm – 5.30pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **AWDURDOD DATBLYGU CYMRU (WDA): Cynllun Busnes Terfynol (Papur oddi wrth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd)**

**Pwrpas**

1. Y Pwyllgor i nodi Cynllun Busnes terfynol Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer 2002-2003.

**Gweithredu**

2. Dim gan y Pwyllgor. Papur er gwybodaeth yw hwn yn unig. Cymeradwyais Gynllun Busnes Terfynol y WDA ar gyfer 2002-2003 ar 13 Mawrth 2002.

**Cefndir**

3. Mae Cynllun Busnes Awdurdod Datblygu Cymru yn disgrifio'n fanwl sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu gwario'i gyllideb ar gyfer 2002-2003. Mae'r Cynllun wedi'i lunio o fewn y fframwaith polisi a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn arbennig yr amcanion yn *Cymru'n Ennill.* Mae'n adlewyrchu'r llythyr cylch gorchwyl a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog Cymru ym mis Chwefror 2002 – ceir copi ohono fel atodiad i bapur Pwyllgor EDC 02-02, a Chynllun Corfforaethol yr Awdurdod ei hun, y cyflwynwyd drafft ohono i'r Pwyllgor ar 11 Gorffennaf 2001 (EDC 11-01).

4. Bydd y Pwyllgor am nodi bod y Cynllun Busnes yn cynnwys rhestr o dargedau allbwn yn Atodiad 1, sy'n adlewyrchu'r targedau lefel uchel hynny a ddisgrifiwyd yn y Llythyr Cylch Gorchwyl. Rwyf wedi cytuno ar y targedau hyn.

**Cydymffurfio**

5. Sefydlwyd y WDA gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd) ("y Ddeddf"). Trosglwyddwyd y pwerau o dan y Ddeddf i'r Cynulliad a'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'i staff. Nid oes unrhyw faterion o reoleidd-dra na phriodoldeb.

6. Rwyf wedi cymeradwyo, o dan adran 1(15) y Ddeddf, Gynllun Busnes blynyddol y WDA a gyflwynwyd i mi gan yr Awdurdod i'w gymeradwyo yn unol ag adran 1(14) y Ddeddf.

## Goblygiadau Ariannol

7. Bydd y costau sy’n gysylltiedig â gweithgareddau’r WDA yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003 yn dod o ddarpariaeth cyllideb y WDA, y cyfeirir ati yn ei Lythyr Cylch Gorchwyl. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i’r Cynulliad o ganlyniad i’r papur hwn.